# Dewch yn Arolygydd Cymheiriaid, Arolygydd Ychwanegol neu'n Arolygydd Partner Gwella yn y sector cynradd

**Arolygydd Cymheiriaid**
**Arolygydd Ychwanegol (AY)**
**Arolygydd Partner Gwella (APG)**

Yn barod i ddechrau eich cais? Cliciwch yma

## Ynglŷn â'r rolau

Rydym yn chwilio am bobl sydd â phrofiad perthnasol o uwch arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd i fod yn Arolygwyr Cymheiriaid.

Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn rhan allweddol o'n timau arolygu. Yn Estyn, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wna arolygwyr cymheiriaid i'n gwaith. Rydym yn gwybod hefyd fod arolygwyr cymheiriaid yn elwa'n fawr yn broffesiynol ar yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig a chyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill yn ystod arolygiadau.

Rydym hefyd yn chwilio am Arolygwyr Ychwanegol sydd â hanes o arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd, yn ogystal ag Arolygwyr Partneriaid Gwella i gefnogi ein gwaith. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael hyfforddiant pwrpasol a dysgu proffesiynol parhaus i'w cynorthwyo i ymgymryd â rôl yr Arolygydd Cymheiriaid, Arolygydd Ychwanegol neu Arolygydd Partner Gwella yn llwyddiannus.

Wedi i chi gymhwyso, byddwch yn defnyddio eich gwybodaeth a medrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel arsylwi dysgu ac addysgu, a siarad â dysgwyr a staff, i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gweithio gydag Estyn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich medrau presennol, datblygu medrau newydd a gweld arfer effeithiol mewn ysgolion eraill.

## Cymhwysedd

Byddwch yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg a bydd gennych:

**Ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid**
- o leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl uwch arweinyddiaeth (Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, Athro/Athrawes â Gofal UCD)
- swydd ar y raddfa gyflog ar gyfer uwch arweinwyr
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad o addysgu
- cefnogaeth gan eich Pennaeth/Athro â Gofal neu Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr neu eich Perchennog neu Gadeirydd y Llywodraethwyr (os ydych chi'n Bennaeth/Athro â Gofal eich hunan).

**Ar gyfer Arolygwyr Ychwanegol**
- hanes profedig fel arweinydd ysgol
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad o addysgu
- geirdaon priodol i gefnogi eich cais

**Ar gyfer Arolygwyr Partneriaid Gwella**

- byddwch yn gweithio fel partner gwella ysgolion ar hyn o bryd ag un o'r consortia rhanbarthol neu awdurdod lleol
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad o addysgu

Rhaid i chi fod yn gweithio yn y sector cynradd ar hyn o bryd, neu'n ddiweddar iawn, i fod yn gymwys ar gyfer y rôl hon.

Os ydych wedi gwneud cais i fod yn Arolygydd Cymheiriaid, Arolygydd Ychwanegol neu'n Arolygydd Partner Gwella yn y gorffennol ond heb gael eich gwahodd i'r digwyddiad hyfforddiant cychwynnol, byddem yn fodlon ystyried cais newydd.

## Dysgu proffesiynol

Bydd y dysgu proffesiynol ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a bydd yn cynnwys:

- **Rhan un:** Cyfarfod ar-lein ar **3 Chwefror 2023** (Microsoft Teams).
- **Rhan dau:** Dau ddiwrnod o ddysgu proffesiynol ac asesu ar sail arolygiad, a gynhelir ar **7 a 8 Mawrth 2023** (lleoliad i'w gadarnhau).

Mae'r digwyddiad hyfforddiant cychwynnol yn rhad ac am ddim a byddwn yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth a llety (os ydych yn gymwys), yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant proffesiynol, byddwn yn gofyn i chi gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dylai fod yn dystysgrif fanylach, heb fod yn fwy na thair blwydd oed, a dylai gynnwys y categori gweithlu'r plant. Bydd angen i chi wneud yn siŵr fod hon ar gael cyn y gallwch gymryd rhan yn yr hyfforddiant wyneb-yn-wyneb a gweithio gydag Estyn. Gwnewch gais am dystysgrif DBS gyfredol.

## Lleoli

Rydym fel arfer yn lleoli Arolygwyr Cymheiriaid tuag unwaith y flwyddyn neu unwaith bob dwy flynedd. Caiff ychydig o Arolygwyr Cymheiriaid eu lleoli'n amlach. Pan fyddwch yn cymryd rhan mewn arolygiad, byddwn yn talu cyfraniad ar gyfradd unffurf i'ch ysgol am athro llanw. Byddwn hefyd yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd Cymheiriaid i gymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru yn ystod tymor yr haf; rhaid i chi gymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn i barhau'n Arolygydd Cymheiriaid. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu am athrawon llanw na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein: https://www.smartsurvey.co.uk/s/B8D3KW/**
**Dyddiad cau: 1 Rhagfyr 2022** am **10yb**

Byddwn yn cysylltu â phawb am ganlyniad eu cais yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar **12 Rhagfyr 2022.**

Mae unrhyw feysydd sydd wedi'u marcio â * yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os nad ydynt yn berthnasol i chi, rhowch 'Ddim yn berthnasol'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae pob croeso i chi anfon neges e-bost atom yn digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffonio ar 02920 44 6510.

Os hoffech trafod y rolau sydd wedi'u hamlinellu uchod cyn gwneud cais, cysylltwch â Dyfrig Ellis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, ar 02920 4446510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.